4ydd Agraffiad y Rheoliadau Academaidd Cyffredin ar gyfer Gradd Doethur Uwch Prifysgol Cymru

Cymhwyster	2
Diffiniad o Waith Cyhoeddedig, Cynhyrchiad neu Arteffact	3
Cyfanswm y Gwaith	4
Y Broses Ddyfarnu	4
Safonwyr	4
Trefniadau Arholi	5
Argymhellion	6
Cynulliad Graddio	6

1. Cyflwyniad

Gall y Brifysgol ddyfarnu gradd Uwch Ddoethuriaeth ar sail gweithiau cyhoeddedig neu gynyrchiadau ym meysydd celf, y cyfryngau, patentau neu ddyluniadau, sydd eisoes yn bodoli, ac sy'n bodloni'r meini prawf isod. Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu yn unig i ymgeiswyr:

(i) sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol, gwreiddiol i'w disgyblaeth(au) dros gyfnod sy'n hirach na deng mlynedd;
(ii) ac sydd wedi sefydlu statws awdurdodol, rhyngwladol yn eu disgyblaeth(au).

Rhaid i'r holl ymgeiswyr dalu'r ffioedd priodol fel y'i rhagnodir gan y Brifysgol. Rhaid i'r holl ymgeiswyr gydymffurfio â rheoliadau academaidd a chyffredinol y Brifysgol.

1.1. Fel rheol, dim ond gwaith sydd wedi'i gyhoeddi mewn llyfrau ysgolheigaidd, monograffau a chyfnodolion fydd yn gymwys i'w ystyried. Fodd bynnag, yn achos gweithiau celf, dylunio a'r cyfryngau, mae'n debygol y ceir tystiolaeth o gymeradwyaeth gyhoeddus, fel Cymrodoriaethau Er Anrhydedd neu wobrwyon o arddangosfeydd, neu ddangosiadau cyhoeddus. Rhaid i'r holl waith fod wedi'i osod yn y parth cyhoeddus, ei arddangos neu ei gyhoeddi ar ryw adeg mewn modd sy'n sicrhau ei fod ar gael yn gyffredinol i ysgolheigion neu bobl eraill sydd â diddordeb allu ymgynghori ag ef.

1.2. Rhaid i'r gwaith sydd i'w gyflwyno gynnwys:

a) Sylwebaeth na fydd fel arfer yn hirach na 5000-6000 o eiriau yn cynnwys crynodeb o'r gwaith a gyflwynir, ac yn dangos cwmpas ei effaith. Yn y crynodeb hwn rhaid i'r ymgeisydd gynnig cyd-destun ar gyfer y cyhoeddiadau, dyluniadau, patentau neu arteffactau, dangos eu bod yn cydlynu, a dynodi eu statws rhyngwladol a'u cyfraniad at ddyrchafu gwybodaeth mewn maes arbenigol.

b) Taflen yn crynhoi rhestr o'r holl gyhoeddiadau, dyluniadau, patentau neu arteffactau a gyflwynwyd ynghyd â datganiad ynghylch cwmpas cyfraniad yr ymgeisydd i weithiau aml-awdur neu gydweithredol;

c) Copi (neu ddarlun) o bob cyhoeddiad, patent, arteffact neu ddyluniad mawr h.y. sydd â dylanwad sylweddol, wedi'i drawsgyfeirio yn unol â (a) uchod;

d) Tystiolaeth o statws ac effaith rhyngwladol y cyhoeddiad, cynyrchiadau neu arteffactau a gyflwynir;

e) Curriculum Vitae academaidd, proffesiynol neu artistig, yn cynnwys cyflwyniadau neu arddangosfeydd cyhoeddus mawr neu dystiolaeth arall o ganmoliaeth gan gymheiriaid. Dylai'r CV gynnwys manylion yr holl gymwysterau academaidd a/neu broffesiynol, swyddi academaidd cyfredol a blaenorol, cofnod o oruchwylio a/neu farcio graddau ymchwil, cofnod o'r grantiau ymchwil (fel Prif Ymchwilydd) ac unrhyw arwyddion o gydnabyddiaeth genedlaethol neu ryngwladol (e.e. gwobrau, prif areithiau, aelodaeth o gorff proffesiynol, aelodaeth o fwrdd golygyddol). Dylai'r CV hefyd nodi holl gyhoeddiadau a chynnyrch ymchwil yr ymgeisydd (h.y. nid y rhai a gyflwynir i'w harchwilio yn unig).

2. **Cymhwyster**

2.1. Rhaid i ymgeisydd am radd Uwch Ddoethuriaeth fodd naill ai:

a) wedi graddio o'r Brifysgol ers o leiaf 10 mlynedd ar lefel israddedig neu o leiaf bedair blynedd ar lefel Athro, neu o leiaf ddwy flynedd ar lefel doethur; neu

b) gall aelod o staff addysgu, ymchwil, gweinyddol, llyfrgell neu dechnegol y Brifysgol neu un o'i sefydliadau cyswllt sydd wedi graddio o brifysgol arall fod yn ymgeisydd:

(i) ar yr amod y bydd wedi cymryd gradd gyntaf ers o leiaf ddeng mlynedd

(ii) ac wedi bod yn aelod o staff y Brifysgol neu un o'i sefydliadau cyswllt am gyfnod parhaus sydd o leaf bum mlynedd (neu'r hyn sy'n cyfateb rhan amser).

2.2. Rhaid i ymgeisydd gyflwyno'r dystiolaeth a nodir yn 1.2 uchod i Gadeirydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil neu ei enwebai. Bydd y penderfyniad a ddylid derbyn unigolyn fel ymgeisydd ar gyfer y radd yn eiddo i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil.

2.3 Bydd gofyn i ymgeiswyr am Uwch Ddoethuriaeth gyflwyno tri chopi o'r gwaith a ddisgrifir yn 1.2 uchod i'w arholi.

2.4 Caiff ymgeiswyr ddirprwyo tasgau gweinyddol yn ymwneud â chyflwyno ac arholi'r gwaith cyhoeddedig neu'r arteffactau i aelod o'u staff. Bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn enwebu Cadeirydd y Bwrdd Safonwyr sy'n gorfod bod yn aelod o staff y sefydliad, fel arfer o statws athrawol, sydd â phrofiad priodol ac nad yw wedi ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â goruchwylio'r cyhoeddiadau, dyluniadau neu arteffactau dan sylw. Rhaid cyflwyno'r enwebiad i Fwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd Prifysgol Cymru am gymeradwyaeth.

2.5. Bydd Bwrdd Safonwyr yr ymgeiswyr yn cynnwys yr unigolion canlynol:

a) Cadeirydd annibynnol fydd yn aelod uwch o staff y sefydliad (fel arfer o statws athrawol) sydd â phrofiad ymchwil sylweddol ar lefel ryngwladol.

b) Tri safonwr annibynnol sydd ag enw da rhyngwladol ym maes yr ymgeisydd, gydag o leiaf un yn gweithio mewn sefydliad y tu allan i'r DU.

Rhaid i aelodau o'r Bwrdd Safonwyr gael eu cymeradwyo gan Fwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd Prifysgol Cymru.

3. Diffiniad o Waith Cyhoeddedig, Cynhyrchiad neu Arteffact

Er mwyn bod yn gymwys i'w ystyried fel 'gwaith cyhoeddedig', 'cynhyrchiad', 'dyluniad' (gan gynnwys patentau) neu 'arteffact', rhaid i'r gwaith fod wedi'i gyhoeddi neu arddangos mewn modd sy'n golygu ei fod ar gael yn gyffredinol i ysgolheigion neu bobl eraill sydd â diddordeb ymgynghori ag ef a dylai fod modd ei ganfod mewn catalogau a/neu lyfrgelloedd.

Mae enghreifftiau o weithiau cyhoeddedig, cynyrchiadau, dyluniadau neu arteffactau cymwys yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Papur academaidd, gan gynnwys allbwn electronig;
- Erthygl mewn cyfnodolyn;
- Monograff;
- Pennod mewn llyfr;
- Gwerslyfr ysgolheigaidd neu fonograff ymchwil;
- Llyfr;
- Dyluniadau cyhoeddedig, gan gynnwys patentau;
- Gwaith celf, fel arfer wedi'i gatalogio;
- Gwaith cyfryngau, ffilm, ffotograffig neu allbwn gweledol neu ddigidol cydnabyddedig arall.

Gellir ystyried gweithiau electronig yn gymwys, ond dylai'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth y bydd y gwaith yn parhau i fod ar gael yn gyhoeddus am y dyfodol rhagweladwy yn ei ffurf bresennol.

4. Cyfanswm y Gwaith

Disgwylir y bydd ymgeiswyr ar gyfer gradd Uwch Ddoethuriaeth wedi cynhyrchu corff sylweddol o waith dros gyfnod sydd o leiaf ddeng mlynedd. Dylai'r gwaith neu'r gweithiau a gyflwynir i'w harholi fod yn sampl cynrychioliadol o holl gyhoeddiadau neu gynyrchiadau'r ymgeisydd. Bydd yr union nifer o weithiau a gyflwynir i'w harholi'n dibynnu ar y maes academaidd a'r math o weithiau cyhoeddedig neu wedi'u catalogio a gynhwysir yn y cyflwyniad, ond dylai'r cyflwyniad fel arfer gynnwys rhwng tri a deg darn o waith neu gynhyrchiad. Fodd bynnag mae'r nifer o weithiau'n eilbeth i gwestiwn ansawdd ac effaith yr allbwn.

5. **Y Broses Ddyfarnu**

Dylai Cadeirydd arfaethedig fodloni'r canlynol:

- Aelod o staff cyflogedig yn y sefydliad neu, drwy eithriad, mewn prifysgol gydnabyddedig ar lefel sy'n ddigon uchel ac yn meddu ar ddigon o brofiad i fod yn awdurdodol;
- Wedi gweithredu fel arholwr ar lefel athrawol neu ddoethurol o leiaf dair gwaith yn y tair blynedd flaenorol;
- Meddu ar statws Athro, neu ddyfarniad academaidd ar lefel ddoethurol neu brofiad a chydnabyddiaeth broffesiynol gyfatebol;
- Meddu ar ddealltwriaeth glir o reoliadau a gweithdrefnau'r Brifysgol;
- Peidio â bod yn gydawdur neu gyd-gynhyrchydd unrhyw rai o'r gweithiau cyhoeddedig a gyflwynir i'w harholi.

6. Safonwyr

6.1. Caiff safonwyr allanol eu henwebu gan y Deon Cyfadran, Pennaeth ysgol neu gyfatebol perthnasol. Dylai safonwr allanol arfaethedig fodloni'r canlynol:

- Ar lefel ddigon uchel a meddu ar ddigon o brofiad i fod yn awdurdodol;
- Ymwybodol o natur a diben y radd y mae'r ymgeisydd yn cael ei arholi ar ei chyfer;

- Meddu ar wybodaeth arbenigol ac arbenigedd ym mhwnc y cyflwyniad;
- Heb gydweithio'n sylweddol ac uniongyrchol gyda'r ymgeisydd yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf;
- Peidio â bod yn gydawdur unrhyw gyhoeddiadau a gyflwynir i'w harholi.

Gellir pennu bod safonwr o'r tu allan i system y Brifysgol yn briodol os oes angen arbenigedd proffesiynol, ar yr amod fod gan y sawl a benodir brofiad addas o ddyfarniadau a gweithdrefnau graddau uwch.

Dylai o leiaf un o'r safonwyr fod wedi'i leoli mewn sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Ni ellir penodi cyn aelod o staff y Brifysgol na chyn fyfyriwr i weithredu fel safonwr allanol am o leiaf bum mlynedd ar ôl gadael y Brifysgol.

6.2. Bwrdd y Safonwyr

Dylai'r Deon Ymchwil ac Astudiaethau Ôl-raddedig, ei enwebai neu gyfatebol gwblhau enwebiad Bwrdd y Safonwyr gan gynnig enw'r darpar gadeirydd, y ddau safonwr allanol a'r safonwr mewnol arfaethedig.

7. Trefniadau Arholi

7.1. Ar ôl cael ei benodi, bydd pob safonwr yn cael:

- Copïau o'r rheoliadau perthnasol;
- Un copi o'r holl waith cyhoeddedig a gyflwynir;
- Un copi o'r ffurflen gais wedi'i chwblhau;
- Y Ffurflenni Adrodd ac Argymell sy'n angenrheidiol ar gyfer arholi.

7.2. Amserlen Arholi

Gofynnir i safonwyr ddarparu adroddiad ar y gwaith mewn modd amserol. Disgwylir i aelodau o Fwrdd y Safonwyr gwblhau'r gwaith arholi ar yr ymgeisydd a chyflwyno eu hadroddiad mor fuan ag sy'n rhesymol bosibl (dim hwyrach na deuddeg wythnos ar ôl derbyn y cais a'r dystiolaeth ategol fel arfer).

7.3. Y Drefn Arholi

Wrth arholi cyflwyniad, dylai arholwyr dalu sylw penodol i'r meini prawf dyfarnu ar gyfer gradd Uwch Ddoethuriaeth:

Dyfernir y cymhwyster i ymgeiswyr:

i. sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol, gwreiddiol i ddisgyblaeth(au) dros o leiaf deng mlynedd;
ii. sydd wedi sefydlu statws awdurdodol, rhyngwladol mewn disgyblaeth(au)

Dylai cynnwys a ffurf adroddiadau'r safonwyr fod yn ddigon manwl i ganiatáu i'r Bwrdd Graddau a Dyfarniadau Academaidd asesu cwmpas ac arwyddocâd y gwaith cyhoeddedig a gyflwynir a gwerthfawrogi ei gryfderau a'i wendidau. Bydd rhaid i unrhyw aelod(au) o'r panel sy'n gyd-gyfranogwyr neu sydd â chyswllt arall boed uniongyrchol neu anuniongyrchol gyda sylwedd y cyflwyniad ymddiswyddo o'r panel yn ystod ei brosesau a'i benderfyniadau.

8. Argymhellion

8.1. Argymhellion sydd ar gael i safonwyr:

a. Dyfarnu gradd Uwch Ddoethuriaeth i'r ymgeisydd.
b. Peidio â chymeradwyo'r ymgeisydd ar gyfer gradd Uwch Ddoethuriaeth.
c. Gofyn i'r ymgeisydd wneud addasiadau neu ddarparu gwybodaeth ychwanegol, cyn ailgyflwyno ac ailarholi gan yr un panel o fewn cyfnod penodol nad yw'n hirach na dau fis.

8.2. Anghytuno rhwng Safonwyr ar yr Argymhelliad

Os ceir anghytuno rhwng y safonwyr, dylai Cadeirydd Bwrdd y Safonwyr anfon yr holl adroddiadau at bob un o'r safonwyr a gofyn i bob safonwr ailystyried eu hargymhelliad gwreiddiol. Os, ar ôl ailystyried, ceir anghytuno o hyd rhwng y safonwyr, dylai Cadeirydd Bwrdd y Safonwyr ofyn am benodi cyflafareddwr allanol. Cyfrifoldeb y cyflafareddwr allanol fyddai penderfynu ailgynnull Bwrdd y Safonwyr ai peidio, a bydd ei benderfyniad ar bob mater yn derfynol.

9. Cynulliad Graddio

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael yr hawl i fynd i'r cynulliad graddio nesaf a derbyn dyfarniad *Uwch Ddoethur*. Byddant yn cael cyflwyniad mewn modd tebyg i ddyfarniad Cymrodoriaethau'r Brifysgol.